Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Crucywel
# New Road
# Crucywel
# Powys
# NP8 1AW

# Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Crucywel

Mae Ysgol Uwchradd Crucywel yn ysgol cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Powys. Daw'r disgyblion o dref Crucywel, y pentrefi cyfagos a'r gymuned wledig. Mae nifer sylweddol yn dewis croesi'r ffin o Sir Fynwy a Blaenau Gwent.

Ar hyn o bryd, mae 882 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 193 yn y chweched dosbarth. Mae tua 7.1% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 17%. Mae rhyw 2% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae anghenion addysgol arbennig gan tua 18% o ddisgyblion. O'r rhain, mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ryw 1%. Mae'r ddau ffigur yn is na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, sef 21.5% a 2% yn y drefn honno.

Daw rhyw 96% o ddisgyblion o gefndir gwyn, Prydeinig. Mae cyfran fach iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2010. Mae'r tîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth, ac un pennaeth cynorthwyol.

Ym Medi 2012 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i ddwyn datblygiadau yn eu blaen mewn perthynas â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Yn Ysgol Uwchradd Crucywel ceir diwylliant o uchelgais uchel y dylai pob disgybl gyflawni 'rhagoriaeth drwy ymdrech'.  Gwna'r ysgol yn siŵr bod disgyblion yn cael cymorth i gyflawni drwy'r gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol iawn y mae'n eu darparu.  Caiff hun fuddion cadarnhaol iawn ar ymddygiad, lles ac agweddau ei disgyblion.  Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod staff a disgyblion yn deall gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol yn dda. Maent yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac mae ganddynt gynlluniau clir ar waith i wneud gwelliannau pellach.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Lleihau'r amrywiant yn ansawdd yr addysgu ac asesu, gan gynnwys mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd

A2 Gwella deilliannau ar gyfer y disgyblion mwyaf abl

A3 Gwella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ganol

A4 Gweithio i ddileu'r diffyg yn y gyllideb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'i gwaith yn cefnogi iechyd a lles meddwl disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae safonau a chynnydd disgyblion yn gryf mewn llawer o feysydd y cwricwlwm. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl mewn mwyafrif o ddangosyddion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn dda yn rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm. Maent yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus i'w gwaith presennol. Mewn ychydig o achosion, maent yn gwneud hyn yn arbennig o dda. Er enghraifft, mewn celf, mae disgyblion yn defnyddio'u profiad personol, eu gwybodaeth am fathau gwahanol o gyfryngau, gwaith artistiaid a dealltwriaeth o'r meini prawf asesu i benderfynu beth i'w gyflwyno a sut i gyflwyno darnau creadigol o safon uchel.

Mae medrau gwrando da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn hapus i rannu'u syniadau a'u barnau ar destunau sy'n cael eu trafod, ac i roi ymatebion llafar byr i gwestiynau athrawon. Pan gânt y cyfle i wneud hynny, mae disgyblion yn darparu ymatebion llafar mwy ystyriol a datblygedig. Er enghraifft, maent yn siarad yn wybodus ac yn huawdl am gonfensiynau theatr ar ôl gwylio clipiau fideo o 'Hamlet' a 'The Duchess of Malfi'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos medrau meddwl a medrau llafar sydd wedi'u datblygu'n dda iawn, er enghraifft, wrth drafod athronwyr a chymeriadau crefyddol mewn astudiaethau crefyddol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod briodol o strategaethau darllen i gefnogi'u dysgu. Mae hyn yn cynnwys darllen i gael gwybodaeth, er enghraifft mewn gwybodaeth ffisegol wrth ymchwilio i nodweddion proteinau. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion afael cadarn ar ddefnyddio awgrym a dod i gasgliad, yn enwedig wrth drafod themâu a chymeriadau mewn testunau llenyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwersi Saesneg lle mae disgyblion yn trafod pa mor dda y mae Golding yn cyflwyno gwareiddiad a barbareiddiwch yn 'Lord of the Flies'. Dangosir ymdeimlad datblygol o symbolaeth mewn testunau llenyddol gan ychydig o ddisgyblion. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn darllen barddoniaeth gyda graddau soffistigedig o ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad, fel pan fyddant yn trafod sut y cyflwynir natur yng ngwaith Brian Patten 'The River's Story'.

Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sy'n sicr yn dechnegol ac wedi'i drefnu'n briodol gan mwyaf. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n addas at ystod briodol o ddibenion a chynulleidfaoedd. Gyda diben eu hysgrifennu y mae disgyblion yn fwyaf sicr, er enghraifft wrth ysgrifennu darnau esboniadol am datŵs neu ddarnau barn ar bortread y cyfryngau o Fwslimiaid. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif bob amser yn glir ynghylch eu hymdeimlad o gynulleidfa. O ganlyniad, gwnânt ddewisiadau anghywir o ran iaith ac nid yw eu gwaith ysgrifennu'n cynnwys y naws gywir. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn prawfddarllen nac yn golygu'u gwaith yn ddigon da, ac mae hyn yn arwain at ailadrodd camgymeriadau sylfaenol. O ganlyniad i'r diffygion hyn, nid yw'r gwaith o'r safon y gallai disgyblion ei chyflawni.

Mewn gwersi mathemateg ac mewn pynciau eraill pan fo'n briodol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau rhifedd da iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r prif fedrau rhif, gan gynnwys canrannau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llunio graffiau yn gywir a gallant ddewis y math mwyaf priodol o graff ar gyfer sefyllfa yn gywir. Gall llawer o ddisgyblion ddadansoddi gwybodaeth raffigol, egluro'r prif nodweddion, a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio casgliadau. Mae ganddynt fedrau trin data effeithiol. Mae dealltwriaeth gadarn o fesurau mesur gan lawer o ddisgyblion. Er enghraifft, mewn dylunio a thechnoleg ym Mlwyddyn 9, mae disgyblion yn gweithio ar brosiect i ail-ddylunio'r llyfrgell gymunedol. Yn y gweithgaredd hwn, sydd wedi'i wreiddio mewn cyd-destun go iawn, maent yn defnyddio prennau mesur, tapiau mesur a dyfeisiau mesur laser electronig i greu lluniadau wrth raddfa. Gall llawer o ddisgyblion amnewid ac aildrefnu fformwlâu yn gywir i gyfrif gwerthoedd coll, er enghraifft wrth gyfrif cyflymder, pellter, amser a chyflymiad gan ddefnyddio hafaliadau mudiant.

Defnyddir technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus gan y rhan fwyaf o ddisgyblion i ymchwilio, creu a chyfleu syniadau, gan ddefnyddio gairbrosesu, meddalwedd cyflwyno a'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, nid yw eu defnydd o gymwysiadau mwy datblygedig fel taenlenni a basau data i ganfod a dadansoddi gwybodaeth wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg mewn gwersi Cymraeg. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion y tu allan i wersi yn gyfyngedig. Yn 2017, dim ond lleiafrif o ddisgyblion gafodd eu cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith. O'r rhain, cyflawnodd bron i bawb radd lefel 2. Cofrestrwyd y disgyblion eraill ar gyfer y cwrs byr, ond dim ond lleiafrif gyflawnodd lefel 2.

Mae perfformiad o ran trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod yn gryf dros y pedair blynedd diwethaf ac yn gyson uwchlaw perfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella ychydig dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2017, mae perfformiad yn y dangosydd hwn, sy'n cynnwys ystod eang o bynciau, ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y tro cyntaf mewn pedair blynedd.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill 5 TGAU neu fwy, neu gyfwerth, gyda graddau A*-A wedi codi a gostwng cryn dipyn dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad o ran y dangosydd hwn wedi bod yn gyson islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn y blynyddoedd diwethaf.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad bechgyn a merched wedi bod uwchlaw perfformiad bechgyn a merched mewn ysgolion tebyg o ran llawer o ddangosyddion.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da iawn ac mae llawer ohonynt yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Gwneir cynnydd cryf iawn mewn gwersi gan bron pob o ddisgyblion y chweched dosbarth. Maent yn hyderus ac yn huawdl, ac yn ddysgwyr brwd. Yn 2017, mae perfformiad o ran y dangosydd sy'n cynnwys tair gradd A*-A mewn Safon Uwch neu gyfwerth yn gryf iawn, ac mae uwchlaw ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol o ran dangosyddion ôl-16 eraill wedi bod yn debyg i hynny mewn ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn frwdfrydig i ddysgu ac eisiau cyflawni'u potensial llawn. Maent yn ymdawelu'n gyflym iawn mewn gwersi, yn dangos lefelau uchel o ddyfalbarhad yn eu dysgu ac yn mynd i'r afael â thasgau heriol gyda phenderfyniad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar ei gilydd ac yn dangos hunanreolaeth wrth iddynt rannu'u meddyliau a'u syniadau yn glir a chydlynus mewn modd cydweithredol. Mae cydweithredu yn gryfder yn yr ysgol. Felly hefyd yr agweddau rhagorol tuag at ddysgu a'r cyfraniad cadarn at fywyd yr ysgol a ddangosir gan ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae ymddygiad yn dda iawn ym mron pob gwers. Mae bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda yn y coridorau wrth symud rhwng gwersi ac yn ystod gwasanaethau ysgol gyfan. Mae disgyblion yn hynod foesgar a chwrtais i bobl eraill. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Ceir ymddiriedaeth a pharch mawr at ei gilydd rhwng y disgyblion a'r staff. Mae perthnasoedd cryf yn galluogi disgyblion i fynd at ystod eang o staff yn hyderus, yn enwedig aelodau o'r tîm lles pe bai angen cymorth arnynt. O ganlyniad, wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, maent yn tyfu o ran aeddfedrwydd a hyder.

Mae dealltwriaeth werthfawr iawn o ffyrdd iach o fyw gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cyfraddau cyfranogi uchel mewn gwersi addysg gorfforol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Ceir cyfraddau cyfranogi uchel iawn yn y rhaglenni amser cinio a'r rhaglenni allgyrsiol helaeth, sy'n cynnwys ystod eang o weithgareddau diwylliannol, chwaraeon ac academaidd, ac maent yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol, medrau arwain a'u medrau bywyd yn effeithiol. Er enghraifft, mae cenhadon myfyrwyr-pwnc gan bob adran sy'n helpu rhedeg gweithgareddau allgyrsiol adrannol yn fedrus.

Mae llwyfannau llais y disgybl, sy'n cynnwys Senedd y Disgyblion, y Cyngor Eco a'r Cyngor Chwaraeon, yn effeithiol iawn. Maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn trafodaethau ystyrlon ac maent yn adrodd eu syniadau a chynnydd yn ôl i'r holl ddisgyblion. Trwy'r grwpiau hyn, gall disgyblion leisio'u barnau ar agweddau pwysig ar fywyd yr ysgol a materion lleol yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae'r grwpiau hyn wedi darparu awgrymiadau gwerthfawr ar ddarpariaeth a gwasanaethau iechyd corfforol o fewn yr awdurdod lleol.

Mae gwerthfawrogiad cryf iawn gan ddisgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Cyfoethogir eu profiadau gan gysylltiadau buddiol â Tsieina, De Affrica, Uganda ac Ewrop. Trwy'r cysylltiadau hyn a'r ymweliadau cyfnewid diwylliannol cysylltiedig, mae dealltwriaeth a gwerthfawrogiad clir iawn gan lawer o ddisgyblion o sut mae pobl o gefndiroedd, ffydd a chrefyddau gwahanol yn byw.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gwybodaeth bynciol dda gan y rhan fwyaf o athrawon ac maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda'r holl ddisgyblion bron.

Mewn llawer o wersi, mae disgwyliadau uchel gan athrawon o ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu. Maent yn sefydlu arferion defnyddiol yn yr ystafell ddosbarth sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymdawelu'n gyflym ac yn barod i ddysgu. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir, defnyddiol ac yn darparu modelau iaith da, gan gefnogi dealltwriaeth disgyblion o derminoleg pwnc allweddol yn dda. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn esbonio cysyniadau yn glir ac yn paratoi gweithgareddau ac adnoddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Un cryfder penodol y gwersi hyn yw'r ffaith fod yr athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl a'r adborth llafar defnyddiol y maent yn ei roi.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnig lefel her a chyflymder addas i'w dysgu. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd sicr. Mae ychydig o athrawon yn cynllunio gwersi sy'n ysbrydoli disgyblion. Defnyddiant eu gwybodaeth bynciol yn fedrus i ehangu dealltwriaeth disgyblion a hyrwyddo'r cynnydd a wnânt i'r eithaf. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus. Maent yn archwilio dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu herio i ddatblygu'u hymatebion llafar yn dda.

Mewn ychydig o achosion, nid oes disgwyliadau ddigon uchel gan athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau sy'n cyfateb yn ddigon da i anghenion a galluoedd disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, mae cyflymder y dysgu yn amhriodol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn siarad am gyfnod rhy hir ac nid ydynt yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u dysgu annibynnol.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio taflenni "marcio cerrig milltir" yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn deall y meysydd bras y mae angen iddynt eu gwella. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn ddigon manwl ac nid yw'n rhoi arweiniad ddigon clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Ar draws pynciau, nid yw'r asesiad o lythrennedd, yn enwedig sillafu, atalnodi a gramadeg disgyblion, wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae ansawdd yr addysgu yn dda.

Mae rhesymwaith clir gan yr ysgol ar gyfer ei chwricwlwm, yn seiliedig ar gynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau penodol i bwnc ochr yn ochr â ffocws cryf ar eu datblygiad personol.

Mae cysylltiadau adrannol yr ysgol gyda'i hysgolion cynradd bwydo yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau disgyblion o gyfnod allweddol 2. Yn y chweched dosbarth ac yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o bynciau sy'n bodloni diddordebau ac anghenion pob dysgwr. Yn sgil hyn, mae bron pob disgybl yn cael swydd neu'n parhau â'i addysg neu hyfforddiant.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gynhwysfawr o brofiadau cyfoethogi'r cwricwlwm fel y 'clwb roboteg', yr ystod eang o glybiau chwaraeon poblogaidd ac ymweliadau addysgol yn yr ardaloedd lleol a thramor. Caiff hyn effaith gadarnhaol sylweddol ar gymhelliant disgyblion i lwyddo ac ymgysylltu â bywyd yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn gadarn. Ceir ystod eang o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau mewn pynciau gwahanol. Er enghraifft, mewn

gwyddoniaeth, mae disgyblion yn datblygu'u medrau cyfrif, trin data a'u medrau graffigol wrth ymchwilio i effaith amrywio crynodiad toddiannau halen ar fàs meinwe tatws suddedig. Ceir ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm yn rhy amrywiol. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth sydd wedi'i chynllunio'n ofalus i ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt gyda medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau. Y tu allan i wersi technoleg gwybodaeth, caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddatblygu'u medrau cyflwyno, cyfathrebu a gairbrosesu. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau TGCh uwch wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd addas iddynt ddatblygu'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a manteision dwyieithrwydd, fel ymweliadau blynyddol â Glan Llyn a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn adeiladu ar eu profiad blaenorol o'r iaith yn yr ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn llwyddiannus o ran creu diwylliant o uchelgais uchel y dylai pob disgybl gyflawni 'rhagoriaeth drwy ymdrech'. Mae ymrwymiad cryf pob aelod o staff i les disgyblion yn cefnogi'n dda y diwylliant o ddisgwyliad a pharch at eraill sy'n treiddio trwy waith yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar les a datblygiad personol disgyblion.

Mae system olrhain gynhwysfawr gan yr ysgol i gofnodi a monitro cynnydd a lles disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i fynd i'r afael yn brydlon ag unrhyw bryderon neu dangyflawniad, ac mae'n cyfrannu'n dda iawn at lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad rhagorol. Caiff cymorth targedig i ddisgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol, gan gynnwys lleihau gorbryder a chynyddu hunan-barch, effaith gadarnhaol iawn eu hagweddau at ddysgu. Mae 'Canolfan Llwyddiant' yr ysgol a'i 'Chanolfan Ymddygiad ar gyfer Dysgu' ('Behaviour for Learning Centre') yn cefnogi disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn dda. Maent yn darparu amgylcheddau gwerthfawr ac effeithiol iawn i fynd ag unrhyw faterion a helpu disgyblion i barhau â'u dysgu.

Mae'r gofal a'r cymorth cryf a ddarperir gan dîm bugeiliol ymroddedig ac effeithiol iawn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol, gan gynnwys y swyddog heddlu cymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau profedigaeth.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth lwyddiannus iawn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n darparu cymorth personoledig effeithiol iawn i'r disgyblion hyn mewn gwersi a thrwy ymyriadau sydd wedi'u targedu'n dda. Mae proses gyfeirio glir ac effeithiol yn sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a chymorth bugeiliol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn ymatebol iawn i anghenion newidiol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddilyniant effeithiol y disgyblion hyn i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi'i chynllunio'n ofalus yn effeithiol iawn o ran cefnogi lles disgyblion a datblygu'u medrau personol a chymdeithasol. Mae disgyblion yn dysgu i barchu gwerthoedd a chredoau pobl eraill, ac mae llawer ohonynt yn datblygu lefelau hunanhyder addas o uchel. Gwna'r ysgol gyfraniad cryf at ddatblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion, trwy wasanaethau, y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, a gwaith gyda'r gymuned ehangach.

Mae'r ysgol yn annog cyfranogiad disgyblion ym mywyd yr ysgol yn llwyddiannus, gan gynnwys drwy Senedd yr Ysgol a'r Cyngor Chwaraeon, a thrwy weithredu fel mentoriaid neu hyfforddwyr chwaraeon ar gyfer disgyblion iau. Ceir cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau drwy waith elusen yn y gymuned ehangach ac yn rhyngwladol, er enghraifft, trwy gyswllt sefydledig gydag ysgol yn Uganda. Hefyd, mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer datblygiad diwylliannol disgyblion drwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau medrau, gwaith cymunedol a theithiau i leoliadau lleol o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol.

Un cryfder arbennig yn yr ysgol yw'r cyfleoedd a ddarperir i helpu disgyblion wneud dewisiadau ffordd iach o fyw, gan gynnwys cyflwyno sesiynau 'ymwybyddiaeth ofalgar' a sesiynau targedig 'chwalu straen' arholiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd helaeth a ddarperir i wneud ymarfer corfforol rheolaidd drwy'r ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol, ac yn arbennig, rhaglen Dug Caeredin. Mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hyrwyddo yfed a bwyta'n iach.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth a'r tîm arwain ar gyfer gwelliant cryf a chynaledig yr ysgol. Y weledigaeth yw cyflawni "Rhagoriaeth drwy Ymdrech" a chyflëir hyn yn effeithiol a rheolaidd ar draws yr ysgol, er enghraifft mewn cyfarfodydd tîm ar bob lefel.

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel wedi sicrhau gwelliannau clir yn ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad ac mae hyn wedi cyfrannu at safonau uchel iawn mewn lles disgyblion. Hefyd, mae'r arweinyddiaeth wedi effeithio'n gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion o ran y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw wedi cael digon o effaith mewn agweddau eraill ar waith yr ysgol fel safonau ac addysgu mewn ychydig o feysydd y cwricwlwm, a pherfformiad disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 4.

Mae arweinwyr yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol ac mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli llinell yn galluogi arweinwyr yr ysgol i fonitro cynnydd yn erbyn targedau yn rheolaidd. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas ac yn rhoi ffocws priodol ar gynnydd disgyblion a gwella ansawdd addysgu a dysgu.

Mae llawer o arweinwyr canol yn cyflawni'u rolau yn effeithiol ac yn gweithio'n dda gydag uwch arweinwyr, er enghraifft wrth ddadansoddi perfformiad disgyblion a nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae anghysonderau o hyd yng ngwaith ychydig o arweinwyr canol, er enghraifft wrth wella agweddau ar addysgu ac asesu.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth drwyadl o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Maent yn chwarae rhan flaenllaw yn pennu cyfeiriad strategol yr ysgol ac yn darparu lefel fuddiol o gymorth i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn parhau i herio'r ysgol er mwyn gwella ychydig o feysydd lle ceir tanberfformio.

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac amcanion rheoli perfformiad staff. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n effeithiol i gynorthwyo ei staff i wella addysgu a dysgu trwy waith y timau dysgu proffesiynol. Hefyd, mae'r ysgol wedi ymrwymo'n gryf i gydweithio. Mae llawer o aelodau staff yn gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol gyda ffocws ar rannu strategaethau effeithiol i wella ysgolion. Mae hyn wedi bod yn fuddiol o ran gwella darpariaeth yr ysgol ei hun, yn ogystal â chefnogi gwaith ysgolion eraill. Er enghraifft, mae cyfranogiad yr ysgol mewn rhaglen genedlaethol cymorth iechyd meddwl yn cyfrannu'n dda at y ddarpariaeth ragorol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.

Mae prosesau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol yn gyffredinol, ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ar draws y rhan fwyaf o agweddau ar yr ysgol. Mae arweinwyr yr ysgol yn ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i sicrhau bod barnau'n gadarn.

Mae cyswllt cryf rhwng cynlluniau gwella â'r materion a nodwyd drwy hunanarfarnu a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae gan arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau gwelliannau mewn llawer o feysydd. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hunanarfarnu yn ddigon trwyadl i arwain at welliant cynaledig yn yr ysgol. Er enghraifft, nid yw ychydig o gofnodion o arsylwadau o wersi yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith addysgu, yn enwedig y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud a safonau eu medrau.

Mae cynllunio ar gyfer gwelliant wedi arwain at gryfderau mewn lles a pherfformiad. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i ychydig o ystyriaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ansawdd yr addysgu, i herio disgyblion mwy abl yn benodol, ac effaith asesu.

Mae cynllun cynhwysfawr ar waith i reoli a lleihau diffyg sylweddol yn y gyllideb.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei Grant Datblygu Disgyblion i ariannu ystod o strategaethau effeithiol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018